Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Cwestiynau Cyffredin

**Beth sy’n digwydd?**

Mae Cynghorau ledled Cymru yn annog aelwydydd nad ydynt yn ailgylchu llawer neu nad ydynt yn ailgylchu o gwbl i ddelio â’u gwastraff yn gywir. Golyga hyn ddidoli gwastraff i’r hyn y gellir ei ailgylchu gan adael yr eitemau sy’n weddill yn unig yn y bin olwynion. Rydym yn cynnig cymorth, cyngor, gwybodaeth a’r bylchau ailgylchu sydd eu hangen arnoch er mwyn i chi allu cyfranogi. Bydd aelwydydd a fydd yn parhau i beidio ailgylchu pob dim ag y gallant o’u cartrefi a hynny wedi iddynt dderbyn nifer o rybuddion gennym yn derbyn hysbysiad cosb benodedig. Golyga hyn y bydd yn rhaid i’r preswylydd dalu cosb benodedig o £300 neu ymddangos yn y llys.

**Pam fod hyn yn digwydd?**

Rydym am i bawb gyfranogi. Pan na fydd aelwydydd yn ailgylchu, mae’n costio i bawb yn y gymuned. Llynedd, yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, roedd y gosb am beidio ailgylchu oddeutu £1,000,000. Gallai hyn fod wedi cael ei wario ar ddiogelu gwasanaethau rheng flaen hanfodol fel ysgolion, llyfrgelloedd, tai, parciau a gwasanaethau cymdeithasol. Mae bagiau neu finiau sy’n gorlifo’n achosi problemau drewdod a fermin. Mae’n niwsans ac yn ddrud i’w glirio. Mae ailgylchu’n hawdd ac mae casgliadau ailgylchu cyson o’r cartref. Mae’r mwyafrif o bobl yn ailgylchu - nid yw’n ormod i’w ofyn.

Mae ailgylchu’n rhan bwysig o bolisïau gwastraff cenedlaethol Cymru. Mae angen cynnwys y deunyddiau nad ydynt ar hyn o bryd yn cael eu hailgylchu er mwyn i gynghorau gyflawni targedau ailgylchu Llywodraeth Cymru, osgoi costau dyddodi ac osgoi dirwyon posib.

**Beth mae hyn yn ei olygu i mi?**

Os nad ydych yn ailgylchu, mae angen i chi ddechrau gwneud heddiw. Nid oes angen i chi aros i dderbyn llythyr oddi wrthym. Gallwch gysylltu â ni ar Wasteservices.merthyr.gov.uk neu ffoniwch 01685 726264 neu ewch i https://www.merthyr.gov.uk/joneses

os ydych am wybod:

- Sut mae archebu bagiau am ddim neu’r blychau sydd eu hangen arnoch, os nad ydych eisoes wedi eu derbyn
- Pa ddiwrnod o’r wythnos y bydd eich ailgylchu (neu wastraff arall na ellir ei ailgylchu) yn cael ei gasglu
- Beth allwch ac na allwch ei ailgylchu
- Pa gymorth a gwasanaethau ychwanegol y gallwn ni eu cynnig i chi?

https://www.merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/

Hefyd, os ydych yn gwybod am rywun allai fod angen cymorth mewn ffurf wahanol, fel mewn iaith wahanol, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â'r uchod.

**Rwyf wedi derbyn llythyr – beth ddylwn i wneud?**

Peidiwch â'i anwybyddu! Er mwyn osgoi derbyn hysbysiad cosb benodedig, sy'n golygu dirwy o £300 ac ymddangosiad posib yn y llys, bydd angen i chi ailgylchu'ch gwastraff. Cysylltwch â ni, hyd yn oed os tybiwch eich bod yn ailgylchu'ch gwastraff yn gywir a byddwn yn eich cynorthwyo i osgoi hysbysiad cosb. Rydw i neu eraill rwy'n eu hadnabod yn ei chael hi'n anodd ailgylchu. Pwy allaf gysylltu â hwy am gymorth? Cysylltwch â'r cyfeiriad e-bost neu ffoniwch y rhif ffôn uchod.

Nid ydym am achosi pryder i aelodau o'r gymuned sy'n agored i niwed. Felly, os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod yn ei chael hi'n anodd ailgylchu neu eich bod tyn teimlo ei fod yn ddryslyd, cysylltwch â ni fel y gallwn eich cynorthwyo. Rydym yn fwy na pharod i ymweld â'ch cartref a dangos i chi sut i ailgylchu'ch sbwriel yn gywir.

**Rwy'n ailgylchu peth o fy sbwriel ond nid wyf yn siŵr am rai eitemau. Rwy'n poeni y caf i hysbysiad cosb benodedig os gwnaf i gamgymeriad bach?**

Ni fyddwn yn cosbi preswylwyr a fydd yn gwneud camgymeriadau achlysurol ac rydym yn canolbwyntio'n hymdrechion ar yr aelwydydd hynny sy'n ailgylchu ychydig iawn neu ddim o gwbl.
Os nad ydych yn siŵr y gall rhywbeth gael ei ailgylchu neu fod pecyn yn dweud rhywbeth yn wahanol i'r wybodaeth yr ydym ni wedi ei rhoi i chi, mae bob amser yn well i ddilyn ein canllawiau ni sydd wedi cael eu cynhyrchu'n benodol ar gyfer eich gwasanaeth ailgylchu. Os ydych wedi colli'ch pamffledyn gwybodaeth a'ch bod am archebu pamffledyn newydd, cysylltwch â ni ar y manylion cyswllt uchod.